**Pwyllgor Datblygu Economaidd** **EDC 10-02 (Cofn drafft)**

**COFNODION**

**Dyddiad** **30 Mai 2002**
**Amser** **2.00 – 3.00pm**
**Lleoliad** **Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**

**Presenoldeb**

| **Aelodau** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Chris Gwyther (Cadeirydd) | Caerfyrddin, Gorllewin a De Sir Benfro |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Chris Chapman | Cwm Cynon |
| Mike German | Dwyrain De Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Alison Halford | Delyn |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Emyr Roberts | Adain Polisi Economaidd |

**Hefyd yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Colin Mitten | Prif Weithredwr, Cyllid Cymru |
| Eleanor Knight | Pennaeth Gweithrediadau, Cyllid Cymru |
| Siân Lloyd Jones | Cyfarwyddwr Gweithredol Cefnogaeth i Fusnes, Awdurdod Datblygu Cymru |
| Mike Davies | Rheolwr y Gronfa Fenthyg, Cyllid Cymru |

**Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| John Grimes | Clerc |
| Julie Owen | Dirprwy Glerc Dros Dro |

**Eitem 1: Sylwadau agoriadol y Cadeirydd**

1. Cafwyd datganiadau o fudd gan Christine Gwyther sydd â'i phartner yn berchen ar fusnes ymgynghorol bychan a Dafydd Wigley sy'n gyfarwyddwr cwmni sy'n ymwneud â Chyllid Cymru.
2. Cafwyd ymddiheuriad gan Ron Davies.

**Eitem 2: Cyllid Cymru**

1. Croesawodd y Cadeirydd y cynrychiolwyr o Gyllid Cymru. Rhoddodd Mr Colin Mitten, gyda chymorth Mr Mike Davies, gyflwyniad ar waith y sefydliad gan esbonio sut y cafodd ei sefydlu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru. Nod Cyllid Cymru oedd cynorthwyo busnesau Cymru i wireddu eu potensial. Nid grantiau a gynigid ganddynt ond benthyciadau, buddsoddiadau ecwiti a chyngor i gynorthwyo busnesau. Hyd yn hyn, yr oeddent wedi cynorthwyo dros 500 o gwmnïau a chreu neu ddiogelu dros 4,000 o swyddi.

2. Ar ôl y cyflwyniad, codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

3. Dywedodd Cyllid Cymru eu bod yn denu cleientiaid drwy roi cyflwyniadau rhanbarthol a thrwy gydweithio'n glos gyda Chyswllt Busnes a chyrff megis asiantaethau menter. Yr oeddent hefyd yn gweithio'n glos gyda'r Ffederasiwn Busnesau Bach ac yr oedd y ffaith i'r corff hwnnw eu beirniadu'n destun syndon a siom iddynt.

4. Yr oedd Cyllid Cymru'n ceisio targedu grwpiau nad oeddent wedi'u cynrychioli'n deg gan gydnabod bod ganddynt anghenion penodol. Fodd bynnag, nid oeddent yn gallu gorfodi cyrff i ddod atynt ac yr oeddent yn cydnabod bod hwn yn faes lle nad oeddent wedi cael fawr o lwyddiant.

5. Cydnabyddid nad oedd pob cwmni'n gallu rhwydweithio a bod rhaid i Gyllid Cymru fynd at y cwmni – a dyna pam fod angen iddynt weithio'n glos gyda Chyswllt Busnes, Asiantaethau menter ayb. Yr oedd y ffaith fod cymaint o gynlluniau ar gael yn ddryslyd ac yr oedd llawer o waith ar y gweill i geisio cyflwyno darlun mwy cydlynol i fusnesau.

6. Cyfalaf gweithio – llywodraethir Cyllid Cymru gan reolau ERDF. Maent yn dymuno gweld cyllid yn cael ei fwydo i fusnes a gweld y busnes hwnnw'n camu ymlaen. Nid oeddent am weld eu cyllid yn cael ei ddefnyddio i glirio' dyledion. Eu nod yw bod pob busnes a gefnogir ganddynt yn gallu ad-dalu eu benthyciadau a thrwy hynny greu rhagor o gyfalaf i gyllido cwmnïau eraill.

7. Dywedodd Cyllid Cymru bod eu cyfraddau llog, ar yr olwg gyntaf, yn edrych braidd yn uchel, sef 5 i 6% yn uwch na chyfradd arferol y banc. Fodd bynnag, yr oedd eu benthyciadau'n aml yn rhai heb eu diogelu, a phetai'r cwmni'n ad-dalu'r benthyciad o fewn yr amserlen y cytunwyd

arni, byddent yn gymwys i gael ad-daliad o 3 – 4%.

8. Ni roddwyd ystadegau ar gyfer nifer y methiannau. Fodd bynnag, darparwyd y ffigyrau canlynol gan Mr Mike Davies:-

- ar gronfeydd tair blwydd oed (Cwmni Benthyciadau Bach a Chronfa Arloesedd Cymru) o £4.7m a fenthyciwyd, codwyd darpariaeth ar gyfer £600k
- Cronfa Arloesedd Cymru o £5m dim ond ar gyfer 3500k y codwyd darpariaeth.

9. Gwnaeth yr aelodau hi'n glir y byddent yn disgwyl methiannau mewn mentrau o'r fath ac y byddent yn fwy pryderus pe na buasai'r un methiant. Awgrymwyd y dylid dangos ffigyrau'r methiannau yn y llenyddiaeth hyrwyddo.

10. Nid oedd Cyllid Cymru'n gweld eu hunain yn "fenthyciwr dewis olaf". Fodd bynnag, nid oeddent yn disgwyl i neb ddod atynt nes iddynt archwilio pob trywydd arall. Yr oedd nifer o gwmnïau wedi cael cyllid o ffynonellau eraill pan ddaeth yn amlwg bod Cyllid Cymru'n barod i gyllido'r fenter.

11. Gellid gweld y meini prawf ar gyfer cymhwyso ar wefan Cyllid Cymru ac yn eu hanfod y meini prawf a bennwyd gan Ewrop oedd y rhain. Nid oedd meini prawf ychwanegol at ben y rhain.

12. Gallai Cyllid Cymru gynnig benthyciadau mewn dau faes lle'r oedd banciau'n anfodlon gwneud. Er enghraifft:

- Benthyciadau heb gefnogaeth lle nad oedd dim asedau ar gael fel sicrwydd, er enghraifft, byddai banciau'n aml yn rhoi benthyg rhwng 50% a 70% ar eiddo masnachol. Byddai Cyllid Cymru'n llenwi'r bwlch.
- Busnesau "nad ydynt yn gwneud elw".

13. Yr oedd Cyllid Cymru'n cydnabod bod angen tynnu allan o gwmni pan nad oedd angen eu cymorth ragor.

14. Mae'n bosibl bod corff yn defnyddio'r arian sydd ar gael iddynt i ddatblygu syniad ac wedyn nad oes modd iddynt gael gafael ar fwy o gyllid er mwyn gweithgynhyrchu a marchnata'r cynnyrch. Byddai Cyllid Cymru'n ceisio edrych ar ddulliau o gyllido prosiectau fel hyn.

15. Diolchodd y Cadeirydd i Mr Mitten a'i gydweithwyr am eu cyflwyniad.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**